South Wales Fire and Rescue Service | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

## Cyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid

## Cyflog £108,290 y flwyddyn

## Lawn Amser, Cytundebau Cyfnod Penodol am 12-18 mis

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar siwrne gyffrous o newid diwylliant ac yn chwilio am Gyfarwyddwr Newid Strategol a Thrawsnewid i gefnogi'r sefydliad drwy'r cyfnod hwn.  Rydym yn chwilio am rywun sydd â hanes hir dangosadwy o arwain a gweithredu newid a thrawsnewid ar draws sefydliadau mawr.  Bydd ganddynt sgiliau pobl ac adeiladu cydberthnasau cryf a sgiliau cyfathrebu ardderchog.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn chwarae rôl allweddol wrth ddyrchafu diwylliant y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth ymgysylltu ac ysgogi ein pobl fel y cânt barhau i ddarparu rhagoriaeth o ran gwasanaethau ar draws De Cymru.

Mae'r Gwasanaeth yn un o'r mwyaf yn y DU, yn gwasanaethu 1.6 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol yn ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy.  Rydym wedi adeiladu enw da am ragoriaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau, o ymateb i ddigwyddiadau brys i amrediad trawiadol o fentrau ataliol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymrwymedig i wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, i weithio ac ymweld â hwy, drwy ganolbwyntio ar ddiogelu cymunedol, denu a datblygu ein pobl ynghyd â gwneud defnydd effeithiol o adnoddau wrth gyflawni gwelliannau sefydliadol.

Bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer y rôl proffil uchel hon arddangos dealltwriaeth glir o'r materion sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub heddiw, boed o fewn Cymru neu ledled y DU. Bydd sgiliau cyfathrebu a chydberthnasau/rhyngweithio ardderchog yn allweddol i gynghori'r Prif Swyddog Tân ac Uwch Arweinwyr eraill, Comisiynwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac i weithio â'r cyrff cynrychioliadol, y Gwasanaethau Tân ac Achub eraill o fewn Cymru a sefydliadau partner.

Rydym yn chwilio am geisiadau gan unigolion sy'n cwrdd â'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.  Mae hyn yn golygu efallai na fydd gennych eisoes, o anghenraid, profiad blaenorol o weithio o fewn y sector Tân.

Mae penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i yr ymgeiswr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

Am drafodaeth anffurfiol gychwynnol ynghylch y rôl, cysylltwch â'r:

Comisiynwyr ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 01443 232000.

Sut i ymgeisio

I ymgeisio, dylai ymgeiswyr gyflwyno CV ynghyd â datganiad cynhaliol yn amlinellu eich sgiliau a'ch profiadau, eich addasrwydd a'ch cyfunionedd â gwerthoedd yr Awdurdod mewn perthynas â'r rôl. Hefyd, a fyddech cystal â chynnwys atebion i'r tri chwestiwn isod:

Ni ddylai eich ateb i'r tri chwestiwn dilynol fod yn fwy na 500 gair.

C1) A fyddech cystal ag amlinellu eich sgiliau a'ch profiad sy'n berthnasol i'r Swydd Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person.

C2) A fyddech cystal â darparu tystiolaeth o sut rydych wedi arddangos cyfunionedd â'n Gwerthoedd.

C3) A fyddech cystal â darparu datganiad o'ch addasrwydd â'r rôl hon.

E-bostiwch hwy at: h-goodchild@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 23.59 ar Ddydd Gwener yr 8fed o Fawrth, 2024.

**<u>Amserlen Penodi</u>**

| **Gweithgaredd** |
|---|
| Y Broses Ymgeisio Yn Agored |
| Y rhestr fer |
| Cyfweliad â Chomisiynwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â'r swydd cyn gynted â phosib.

**Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'r gymuned i ymgeisio.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg a Saesneg ill dau.**

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG